# Polisi Cydymffurfio a Gorfodi: Gorfodi Cyfraith Bwyd

**Cyflwyniad**

Yng Nghyngor Sir Ceredigion mae adran Iechyd yr Amgylchedd (sy'n ymdrin â materion hylendid a diogelwch bwyd) a'r adran Safonau Masnach (sy'n ymdrin â materion labelu a chyfansoddiad bwyd) yn ymgymryd â'r gwaith o orfodi cyfraith bwyd. Mae swyddogion o'r ddau wasanaeth hwn yn gweithredu'r dyletswyddau statudol a osodir ar Awdurdodau Bwyd ar y cyd.

Mae'r Polisi hwn yn ategu Polisi Gorfodi Corfforaethol Cyngor Sir Ceredigion wrth sefydlu dull cyson o orfodi cyfraith diogelwch bwyd.

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i'r holl gamau gorfodi a gymerir gan swyddogion o dan ddeddfwriaeth diogelwch bwyd ac mae'n rhaid ei ddarllen ar y cyd â'r Polisi Gorfodi Corfforaethol trosfwaol.

Pan fydd unrhyw wrthdaro wrth ddehongli'r Polisi hwn a'r Polisi Gorfodi Corfforaethol trosfwaol, bydd yr olaf yn cael blaenoriaeth.

**Gweithgaredd Rheoleiddio sy'n Seiliedig ar Risg**

Wrth ddyrannu'n hymdrechion a'n hadnoddau, byddwn yn blaenoriaethu ac yn targedu i sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf, drwy asesu'r risgiau i'n canlyniadau rheoleiddio. Bydd asesiadau risg o'r fath yn sylfaen i'n dulliau o orfodi, gan gynnwys casglu data, rhaglenni archwilio, cyngor busnes (lle'n berthnasol) a gorfodaeth/sancsiynau. Byddwn yn gwneud defnydd o unrhyw gynlluniau methodoleg asesu risg a ddyfeisir ac a gymeradwyir gan Adrannau'r Llywodraeth ar gyfer ein meysydd gwasanaeth penodol.

Byddwn yn cydymffurfio â gofynion Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008, fel y'i diwygiwyd, wrth ystyried cymryd camau gorfodi yn erbyn unrhyw fusnes neu sefydliad sydd â Phartneriaeth Prif Awdurdod, a byddwn yn rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn arbennig, byddwn yn ymgysylltu â'r Prif Awdurdod ac yn rhoi ystyriaeth i unrhyw gyngor maent wedi'i ddarparu, yn eu hysbysu ynghylch unrhyw gamau gorfodi arfaethedig, ac yn cydymffurfio â'r drefn statudol os na fydd y Prif Awdurdod yn cydsynio i'r camau hyn.

Yn ystod pob cam o'r broses benderfynu, byddwn yn dewis y math mwyaf priodol o ymyrraeth neu ddull o weithio gyda busnesau, gan gynnwys pan fyddwn ni'n cynnal gwiriadau cydymffurfio neu'n cymryd camau gorfodi. Os gwelir bod perfformiad busnes yn cynrychioli mwy o risg neu lai o risg na busnesau eraill tebyg, byddwn yn cydnabod y modd maent wedi cydymffurfio yn y gorffennol, gan gynnwys tystiolaeth unrhyw wiriad allanol, er mwyn inni allu ystyried unrhyw ddulliau cydnabyddiaeth haeddiannol priodol. Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd ein gweithgareddau rheoleiddio o ran cyflawni'r canlyniadau a ddymunir, ac yn gwneud unrhyw addasiadau fel bo angen.

**Awdurdod Sylfaenol**

Mae'n rhaid i bob swyddog sy'n ystyried ymyrryd wirio a yw busnes wedi'i gofrestru fel rhan o bartneriaeth Awdurdod Sylfaenol, boed yn ei enw ei hun neu fel rhan o bartneriaeth gydlynol drwy gytundeb masnachfraint neu gymdeithas fasnach.

Mae'r tîm Cyflenwi Rheoleiddiol (rhan o'r Adran ar gyfer Strategaeth Fusnes, Ynni a Diwydiannol) yn cydlynu'r Awdurdod Sylfaenol, gan gynnwys cymeradwyo a chofrestru'r holl bartneriaethau Awdurdod Sylfaenol. Pan fydd Awdurdod Sylfaenol wedi'i gofrestru, mae'n rhaid i unrhyw Awdurdod Lleol (a adwaenir fel "awdurdod gorfodi" at ddibenion y cynllun) sy'n bwriadu cymryd camau gorfodi yn erbyn busnes o fewn y cynllun gysylltu â'r Awdurdod Sylfaenol yn gyntaf oni fydd angen cymryd camau ar unwaith. Gall yr Awdurdod Sylfaenol herio camau gorfodi arfaethedig os yw'n credu bod y camau gorfodi yn anghyson â'r cyngor neu'r canllawiau a ddarparwyd yn flaenorol. Bydd y tîm Cyflenwi Rheoleiddiol yn penderfynu ar unrhyw anghydfod sy'n deillio o hyn.

Mae "Awdurdod Sylfaenol" yn golygu awdurdod sydd wedi ymrwymo i gytundeb ffurfiol, mewn perthynas â rheolaethau deddfwriaethol penodedig, i fod y brif ffynhonnell sy'n rhoi cyngor ar gydymffurfio â'r gofynion hyn ac i gydlynu camau gorfodi.

**Diffiniadau**

At ddiben y Polisi hwn bydd "Swyddog Awdurdodedig" yn golygu Swyddog sydd â'r pwerau dirprwyedig perthnasol i weithredu o dan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, Deddf Diogelwch Bwyd 1990, Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009, Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011, Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a'r rheoliadau a gyhoeddwyd o dan hynny ac mae wedi'i awdurdodi gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Polisi a Pherfformiad.

**Cymryd Camau Gorfodi**

Mae Polisi Gorfodi Corfforaethol Cyngor Sir Ceredigion yn ystyried yr amrywiaeth eang o opsiynau gorfodi sydd ar gael i'r Gwasanaeth. Diben y Polisi hwn yw nodi'r opsiynau gorfodi ychwanegol sydd ar gael sy'n benodol i'r broses o weinyddu cyfraith bwyd.

Os bydd tystiolaeth bod gweithredwr busnes bwyd yn methu â chydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd, caiff y camau gweithredu canlynol eu hystyried a chaiff yr opsiwn mwyaf priodol ei ddewis a'i weithredu yn unol â dogfennau gweithdrefnol perthnasol, canllawiau ymarfer a'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Hylendid Bwyd 1990, Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2007:

- Cydymffurfio, cyngor a chymorth
- Hysbysiadau cosb benodedig
- Hysbysiadau statudol
- Cau gwirfoddol
- Atafael a chadw bwyd

- Rhybudd syml
- Erlyn
- Gwneud cais am orchymyn gwahardd at ddibenion hylendid

Nodir y rhain yn fanylach isod.

Wrth benderfynu ar y math o gamau gorfodi i'w cymryd, mae'n rhaid i swyddogion awdurdodedig ystyried natur y methiant a hanes y gweithredwr busnes bwyd o ran cydymffurfio. Oni fydd amgylchiadau yn awgrymu risg sylweddol, bydd swyddogion yn gweithredu dull graddol ac addysgiadol gan symud i gamau mwy ffurfiol pan na fydd camau anffurfiol yn cyflawni'r effaith ddymunol. Yn achos busnesau newydd, gwneir asesiad o barodrwydd y gweithredwr busnes bwyd i ymgymryd â gwaith a nodwyd gan y swyddog.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth mewn sefydliadau bwyd a gynhelir gan Gyngor Sir Ceredigion, bydd swyddogion awdurdodedig yn cyflawni eu dyletswyddau gorfodi yn union yr un ffordd ag y gwnânt mewn eiddo eraill. At hynny, byddant yn sicrhau bod y sylw a delir yn cyd-fynd â'r meini prawf a gymhwysir i ddeiliaid eraill y dyletswyddau hyn.

Dylid adrodd unrhyw achosion difrifol o dorri cyfraith bwyd mewn sefydliadau o'r fath ar unwaith i'r Prif Weithredwr. Dylid rhoi gwybod i'r tîm rheoli am unrhyw achosion eraill o dor-cyfraith.

**<u>Cydymffurfio, Cyngor a Chymorth</u>**

Mae'r Polisi Gorfodi Corfforaethol trosfwaol yn cydnabod gwerth camau anffurfiol, gan gynnwys darparu cyngor a chanllawiau i fusnesau, fel ffordd o gyflawni cydymffurfiaeth.

Yn benodol, mewn cysylltiad â gweinyddu cyfraith bwyd, gallai camau anffurfiol gynnwys cynnig cyngor, rhoi rhybuddion llafar a gofynion gweithredu drwy ddefnyddio llythyrau anffurfiol ac adroddiadau arolygu hylendid.

Nodwyd yr amgylchiadau canlynol fel rhai priodol ar gyfer defnyddio camau anffurfiol i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaeth diogelwch bwyd neu arferion gorau o fewn cyfnod rhesymol:

- Amgylchiadau lle na fydd canlyniad diffyg cydymffurfio â'r tramgwydd a nodwyd yn peri risg sylweddol i iechyd y cyhoedd.
- Gweithredoedd neu hepgoriadau nad ydynt yn ddigon difrifol i arwain at gamau ffurfiol.
- O hanes a/neu barodrwydd y gweithredwr busnes bwyd i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol, gellid disgwyl yn rhesymol y bydd camau anffurfiol yn arwain at gydymffurfio.
- Mae'r hyder yng ngallu'r busnes i reoli yn uchel.
- Achosion cychwynnol o dor-gyfraith nad ydynt yn arwain at risg ar unwaith i iechyd y cyhoedd ac sy'n berthnasol i fusnesau bwyd sy'n gysylltiedig â sefydliadau gwirfoddol sy'n defnyddio gwirfoddolwyr.

Caiff pob achos ei asesu yn ei rinwedd ei hun ac, os bydd angen, mewn ymgynghoriad ag uwch swyddog neu Reolwr Gwasanaeth pan fydd angen canllawiau neu gyngor.

Caiff cadarnhad ysgrifenedig ei anfon at y gweithredwr busnes bwyd ar bob achlysur ac bydd hyn yn gwahaniaethu rhwng gofynion cyfreithiol a materion a argymhellir fel arfer dda.

**Hysbysiadau Cosb Benodedig**

Mae'r Polisi Gorfodi Corfforaethol trosfwaol yn ystyried y defnydd o hysbysiad cosb benodedig.

Mewn perthynas â gorfodi cyfraith bwyd, mae gan swyddog awdurdodedig y disgresiwn i gyflwyno hysbysiad cosb benodedig am drosedd o dan adran 9 Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 sy'n ymwneud ag arddangos, neu fethu ag arddangos sgôr briodol y cynllun sgorio hylendid bwyd. Dim ond pan fydd achos o ddiffyg cydymffurfio parhaus, er gwaethaf cymorth gan y Gwasanaeth a/neu dderbyn cyngor yn flaenorol, y caiff yr hysbysiadau eu rhoi.

**Hysbysiadau Statudol**

Polisi'r Gwasanaeth yw defnyddio hysbysiadau statudol fel opsiwn i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth. Bydd camau gweithredu o'r fath yn cynnwys cyflwyno'r hysbysiadau canlynol o dan Reoliad penodol Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006: Hysbysiadau Gwella Hylendid o dan Reoliad 6, Hysbysiadau Gwahardd at Ddibenion Hylendid o dan Reoliadau 7 ac 8 a Hysbysiadau Camau Adfer a Hysbysiadau Cadw o dan Reoliad 9.

***Hysbysiadau Gwella***

Caiff Hysbysiadau Gwella Hylendid/Safonau Bwyd eu defnyddio i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion diogelwch bwyd o fewn amserlen resymol o dan amgylchiadau lle y mae'r swyddog awdurdodedig yn fodlon bod achos o dorri deddfwriaeth diogelwch bwyd wedi digwydd ond nad yw'r tramgwydd yn peri risg sylweddol i iechyd. Gallai'r amgylchiadau hynny gynnwys:

- Ar ôl ystyried y risg i iechyd y cyhoedd, lle y gallai'r canlyniadau peri risg bosibl i iechyd y cyhoedd; neu
- Lle y mae achosion sylweddol o dorri deddfwriaeth diogelwch bwyd; neu
- Lle y mae diffyg hyder y bydd y gweithredwr busnes bwyd yn ymateb i ddull anffurfiol; neu
- Lle y mae cofnod o ddiffyg cydymffurfio yn dilyn y defnydd o ddull anffurfiol; neu
- Lle y mae safonau yn gyffredinol wael heb lawer o ymwybyddiaeth o ofynion statudol ymhlith rheolwyr; neu
- Lle y mae'r achos o dor-gyfraith yn ddigon difrifol i warantu erlyn

Nodwyd yr amgylchiadau canlynol fel rhai amhriodol ar gyfer defnyddio Hysbysiadau Gwella Hylendid/Safonau Bwyd:

- Nid yw'r achos o dor-gyfraith yn peri risg i iechyd y cyhoedd; neu

- Mewn sefyllfaoedd dros dro, lle y mae achosion o dor-gyfraith yn bodoli sy’n peri risg ddifrifol i iechyd y cyhoedd a lle yr ystyrir bod angen camau gorfodi prydlon; neu
- Byddai’n fwy priodol ac er budd iechyd y cyhoedd i ddefnyddio dull anffurfiol; neu
- Lle y mae achos o dorri arferion hylendid da ond nad oes diffyg cydymffurfio â rheoliad priodol.

Dim ond swyddogion awdurdodedig fydd yn cyflwyno Hysbysiadau Gwella Hylendid/Safonau Bwyd. Ni fydd swyddog awdurdodedig yn llofnodi Hysbysiad Gwella Hylendid/Safonau Bwyd oni fydd tystion i’r achosion o dor-gyfraith a bod y meini prawf perthnasol wedi’u bodloni.

Caiff yr holl Hysbysiadau Gwella Hylendid/Safonau Bwyd eu cyflwyno yn unol â’r Cod Ymarfer perthnasol.

Caiff Hysbysiadau Gwella Hylendid Sengl eu cyflwyno gyda nifer addas o atodlenni wedi’u hatodi oni fydd y swyddog awdurdodedig yn fodlon ar y canlynol:

- Mae’n debygol y bydd apêl yn erbyn un neu fwy o eitemau a gynhwysir o fewn yr atodlen, a allai atal yr hysbysiad cyfan; neu
- Mae terfynau amser ar wahân yn fwy priodol ar gyfer yr eitemau gwahanol a gynhwysir yn yr atodlen; neu
- O dan amgylchiadau o’r fath, caiff nifer addas o hysbysiadau ar wahân gydag atodlenni unigol eu cyflwyno.

Mae’n rhaid i swyddogion awdurdodedig roi terfynau amser realistig ar hysbysiadau, gan ystyried y gwaith a gaiff ei benodi ac argaeledd datrysiadau priodol, yn ddelfrydol ar ôl cynnal trafodaethau â’r gweithredwr busnes bwyd. Ym mhob achos, mae’n rhaid rhoi isafswm cyfnod o 14 diwrnod.

Mae’n drosedd i beidio â chydymffurfio â Hysbysiad Gwella Hylendid a fydd yn gyffredinol yn arwain at argymhelliad i ddechrau achos llys. Felly mae’n rhaid i swyddogion awdurdodedig gael tystiolaeth ddigonol ar gael i gyfiawnhau’r mater, bod yn barod i fynd ar drywydd y diffyg cydymffurfio yn y Llysoedd a bod yn fodlon bod yr achos llys yn debygol o lwyddo. Mae’n rhaid i’r sawl sy’n derbyn yr Hysbysiadau Gwella Hylendid fod yn ymwybodol o’u hawl i apelio a sut a phryd i wneud apêl.

Dim ond drwy gais ysgrifenedig y caiff ceisiadau am estyniad amser eu hystyried a hysbysir y sawl sy’n derbyn hysbysiadau am y polisi hwn ar adeg cyflwyno’r hysbysiad.

Cyn ystyried unrhyw gamau gorfodi, lle y bo’n briodol, caiff y mater ei drafod gydag unrhyw awdurdod Sylfaenol, cartref neu wreiddiol perthnasol.

Bydd y Gwasanaeth yn hysbysu cyrff gorfodi priodol eraill a phartïon perthnasol eraill â diddordeb am y camau gweithredu ynghyd â chyngor yn amlinellu’r camau adfer sy’n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio.

***Hysbysiadau Camau Adfer***
Hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i'r gweithredwr bwyd perthnasol neu gynrychiolydd awdurdodedig y gweithredwr yw Hysbysiad Camau Adfer sy'n:

- Gwahardd defnyddio unrhyw offer neu unrhyw ran o'r sefydliad penodedig yn yr hysbysiad;
- Gorfodi amodau ar neu'n gwahardd cyflawni unrhyw broses; neu'n
- Mynnu bod y broses o weithredu'r busnes bwyd yn dod i ben yn llwyr neu'n lleihau i'r fath raddau a nodwyd yn yr hysbysiad.

Bydd y swyddog hefyd yn ystyried a ddylid cadw'r bwyd yn y sefydliad at ddibenion ei archwilio drwy Hysbysiad Cadw.

Ymhlith yr amgylchiadau a allai arwain at gyflwyno Hysbysiad Camau Adfer mewn perthynas â sefydliad mae:

- Methiant unrhyw offer neu ran o sefydliad i gydymffurfio â gofynion y rheoliadau hylendid bwyd;
- Materion yn ymwneud â chroeshalogi;
- Yr angen i osod amodau ar neu wahardd cyflawni unrhyw broses sy'n torri gofynion y rheoliadau neu'n amharu ar arolygiad iechyd digonol yn unol â'r rheoliadau; neu
- Lle y mae cyfradd weithredu'r busnes yn niweidiol i'w allu i gydymffurfio â'r rheoliadau.

Mae'n rhaid i unrhyw Hysbysiad Camau Adfer gael ei gyflwyno cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac mae'n rhaid iddo nodi pam mae'n cael ei gyflwyno. Os bydd y swyddog awdurdodedig yn dibynnu ar unrhyw achos o dorri gofynion y Rheoliadau Hylendid, mae'n rhaid i'r hysbysiad nodi'r achos o dor-gyfraith a'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn adfer y sefyllfa.

Pan fydd swyddog awdurdodedig yn cyflwyno Hysbysiad Camau Adfer mewn sefydliad yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth o dan Erthygl 4(2) Rheoliad 853/2004, dylai'r swyddog hefyd ystyried a ddylid cadw'r bwyd yn y sefydliad at ddibenion archwilio drwy Hysbysiad Cadw o dan Reoliad 9 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006. Ymhlith yr amgylchiadau a allai arwain at gyflwyno Hysbysiad Cadw lle y mae awgrymiadau neu amheuon nad yw'r bwyd mewn sefydliad yn ddiogel.

Unwaith y bydd swyddog awdurdodedig yn fodlon bod y camau adfer wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r Hysbysiad Camau Adfer a gyflwynwyd, mae'n rhaid iddo ef neu iddi hi ddileu'r hysbysiad drwy gyflwyno hysbysiad pellach yn ysgrifenedig i'r gweithredwr busnes bwyd neu gynrychiolydd awdurdodedig y gweithredwr busnes bwyd.

Dylai'r defnydd o Hysbysiadau Camau Adfer a Hysbysiadau Cadw fod yn gymesur â'r risg i iechyd y cyhoedd a lle y mae angen cymryd camau ar unwaith i sicrhau diogelwch bwyd.

Dylid cyflwyno'r holl Hysbysiadau Camau Adfer a Hysbysiadau Cadw yn unol â'r Cod Ymarfer perthnasol. Mae'n rhaid sicrhau bod y sawl sy'n derbyn Hysbysiad Camau Adfer yn ymwybodol o'r hawl i apelio i'r Llys Ynadon.

***Hysbysiadau Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid***

Nodwyd yr amgylchiadau canlynol fel rhai priodol ar gyfer defnyddio Hysbysiadau Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid yn dilyn nodi risg ar unwaith i iechyd:

- Byddai canlyniadau peidio â chymryd camau penderfynol ar unwaith i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn annerbyniol.
- Gellid dangos bod risg ar unwaith i iechyd, e.e. tystiolaeth gan arbenigwyr perthnasol fel Dadansoddwr Bwyd neu Archwilydd Bwyd.
- Caiff y meini prawf canllaw a nodwyd yn y Cod Ymarfer perthnasol, sy'n ymwneud â'r amodau lle y gallai gwahardd fod yn briodol, eu cyflawni.
- Mae'r gweithredwr busnes bwyd yn anfodlon cadarnhau yn ysgrifenedig unrhyw gynnig awgrymedig o wahardd yn wirfoddol.

Dim ond Swyddog Gwasanaethau Masnachol ag awdurdod priodol fydd yn llofnodi a chyflwyno Hysbysiadau Gwahardd at Ddibenion Hylendid, a fydd yn hysbysu'r Rheolwr Tîm cyn gynted â phosibl am eu camau.

Ni fydd Swyddog Gwasanaethau Masnachol awdurdodedig yn llofnodi Hysbysiadau Gwahardd at Ddibenion Hylendid oni fydd tystion i'r sefyllfa a bod y meini prawf perthnasol wedi'u bodloni.

Caiff yr holl Hysbysiadau Gwahardd at Ddibenion Hylendid eu cyflwyno yn unol â'r Cod Ymarfer perthnasol. Mae'n rhaid sicrhau bod y sawl sy'n derbyn yr Hysbysiad yn ymwybodol o'r hawl i apelio i'r Llys Ynadon.

Dylid hysbysu'r Rheolwr Gwasanaeth ag adran gyfreithiol yr Awdurdod ar unwaith os caiff Hysbysiad Gwahardd at Ddibenion Hylendid ei gyflwyno.

Unwaith y bydd Hysbysiad Gwahardd at Ddibenion Hylendid yn cael ei gyflwyno, mae'n rhaid gwneud cais am Orchymyn Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid i'r Llys Ynadon o fewn 3 diwrnod gwaith i gyflwyno'r Hysbysiad ac mae'n rhaid rhoi o leiaf un diwrnod o rybudd i'r busnes am y bwriad hwn.

Mae'n rhaid i'r gweithredwr busnes bwyd sydd wedi bod yn destun Hysbysiad Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid dderbyn Hysbysiad o Gais am Orchymyn Gwahardd Brys at Dibenion Hylendid o leiaf un diwrnod cyn dyddiad y cais i'r Llys Ynadon. Bydd yr hysbysiad yn rhoi manylion am amser a dyddiad y cais.

Mae'n drosedd i beidio â chydymffurfio â Hysbysiad Gwahardd at Ddibenion Hylendid a bydd hyn yn arwain at gyfeirio'r mater i'w ystyried ar gyfer erlyn o bosibl.

Bydd yr Awdurdod yn hysbysu cyrff gorfodi eraill a phartïon perthnasol â diddordeb am ei gamau gweithredu.

**Cau Gwirfoddol**

Gellid defnyddio gweithdrefnau gwirfoddol i ddileu cyflwr perygl iechyd fel opsiwn amgen i gyflwyno Hysbysiad Gwahardd at Ddibenion Hylendid. Gallai'r dull hwn gael ei awgrymu gan y gweithredwr busnes bwyd neu'r swyddog awdurdodedig.

Dylai'r gweithredwr neu'r rheolwr busnes bwyd a'r swyddog awdurdodedig gadarnhau unrhyw gytundeb cau gwirfoddol yn ysgrifenedig, gydag addewid gan y gweithredwr neu'r rheolwr busnes bwyd i beidio ag ailagor heb gymeradwyaeth y swyddog ymlaen llaw. Caiff y gweithredwr busnes bwyd ei hysbysu ei fod yn colli unrhyw hawl i iawndal drwy gynnig cau'n wirfoddol. Ni fydd cytundeb cau gwirfoddol yn atal achos cyfreithiol am ddiffyg cydymffurfio â deddfwriaeth diogelwch bwyd.

**Atafael a Chadw**

Os bydd y swyddog awdurdodedig, wrth archwilio bwyd neu oherwydd gwybodaeth arall o ffynhonnell ddibynadwy, yn credu nad yw'r bwyd yn cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd, gall y swyddog gadw neu atafaelu'r bwyd o dan Adran 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Gall ffynonellau dibynadwy gynnwys yr Asiantaeth Safonau Bwyd, PHE (Public Health England), Iechyd Cyhoeddus Cymru, CCDC.

Gall hefyd fod yn angenrheidiol atafael a chadw bwyd ar ôl iddo gael ei dystio fel bwyd nad yw wedi'i gynhyrchu, ei brosesu neu ei ddosbarthu yn unol â Rheoliad 27 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

Os bydd gan y swyddog awdurdodedig reswm da dros amau nad yw'r bwyd yn bodloni gofynion diogelwch bwyd yna gellid cyflwyno hysbysiad cadw bwyd.

Dim ond yn dilyn trafodaeth â'r perchennog neu'r person sy'n gyfrifol am fwyd ac, os yn briodol y gweithgynhyrchwr, y dylid penderfynu cadw bwyd. Pan fydd y swyddog awdurdodedig wedi cyflwyno hysbysiad cadw bwyd, dylid defnyddio barn broffesiynol i bennu a ddylid cadw'r bwyd yn y fan a'r lle neu ei symud i rywle arall. Os bydd gan y swyddog unrhyw amheuon ynghylch diogelwch neu ofal ffisegol y bwyd, dylai'r hysbysiad cadw nodi lle y dylid symud y bwyd iddo. Bydd y swyddog yn trefnu bod y bwyd yn cael ei fonitro'n gyfnodol drwy gydol y cyfnod cadw.

Bydd y swyddog awdurdodedig yn gweithredu cyn gynted â phosibl pan fydd tystiolaeth neu wybodaeth yn nodi y gellid rhyddhau'r bwyd, ac o fewn 21 diwrnod ym mhob achos. Bydd yr Hysbysiad Cadw Bwyd yn cael ei dynnu'n ôl.

Rhagdybir o dan gyfraith bwyd bod pob bwyd i'w fwyta gan bobl oni brofir fel arall. Wrth ystyried a ddylid atafael bwyd bydd swyddog yn ystyried a ellid trin neu brosesu'r bwyd dan sylw cyn ei fwyta ac os felly, a fyddai'r bwyd, ar ôl cael ei drin neu ei brosesu, yn gyflawn ac yn iach ac yn bodloni gofynion diogelwch bwyd. Gall bwyd a gadwyd yn flaenorol gan swyddog gael ei atafael a'i gondemnio ar ôl derbyn canfyddiadau andwyol.

Pan fydd swyddog yn gwneud penderfyniad i atafael bwyd caiff hysbysiad rhybudd condemnio bwyd ei gyflwyno i'r person sy'n gyfrifol am y bwyd, neu'r perchennog. Bydd yr hysbysiad hwn yn rhoi rhybudd o'r bwriad i gymryd y bwyd gerbron Ynad Heddwch a gwneud cais i'w gondemnio.

Dylai Ynad Heddwch ymdrin â bwyd sydd wedi'i atafael cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, fel arfer o fewn 2 ddiwrnod. Dylid ymdrin ag achosion sy'n cynnwys bwydydd darfodus iawn cyn gynted â phosibl. Os bydd angen, gellid ymestyn y terfyn amser i sicrhau bod y partïon a/neu eu cynrychiolwyr yn cael cyfle i

fynychu. Fodd bynnag, ni fydd y camau yn cael eu hoedi os na ellid olrhain neu gysylltu â'r perchennog.

**Ymdrin â Sypiau, Lotiau a Llwythi**
Mae'r penderfyniad i atafael neu gadw swp, lot neu lwyth yn gofyn am ystyriaeth ofalus cyn cyflwyno hysbysiad. Bydd y swyddog awdurdodedig yn defnyddio barn broffesiynol a chyngor arbenigol, os bydd angen, i benderfynu a ddylid cadw neu atafael y swp, lot neu lwyth cyfan neu ran ohonynt. Bydd y swyddog awdurdodedig yn ystyried:

- Y dystiolaeth sydd ar gael;
- Natur yr halogi;
- Natur a chyflwr y cynhwysydd sy'n dal y bwyd;
- Risg i iechyd;
- Maint y bwyd mewn perthynas ag unrhyw samplo a gynhaliwyd.

**Iawndal**
Os bydd hysbysiad cadw yn cael ei dynnu'n ôl neu os na fydd Ynad Heddwch yn condemnio'r bwyd a atafaelwyd, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn ystyried talu iawndal i'r perchennog am unrhyw ddibrisiant i'w werth sy'n deillio o'r camau a gymerwyd gan y swyddog awdurdodedig.

**Ildio Gwirfoddol**
Gellid defnyddio gweithdrefnau gwirfoddol i symud bwyd nad yw'n addas i'w fwyta gan bobl o'r gadwyn fwyd; naill ai yn dilyn awgrym perchennog y bwyd neu'r swyddog awdurdodedig pan fydd perchennog y bwyd yn cytuno nad yw'r bwyd yn addas i'w fwyta gan bobl.

Dylid cyflwyno derbynneb ar gyfer bwyd a gaiff ei ildio'n wirfoddol i'r Awdurdod ei ddinistrio. Dylai'r dderbynneb nodi bod y bwyd wedi cael ei ildio'n wirfoddol i Gyngor Sir Ceredigion i'w ddinistrio a dylid ei llofnodi a'i chydlofnodi gan y swyddog awdurdodedig a'r person sy'n ildio'r bwyd yn y drefn honno.

**Dinistrio a Gwaredu**
Gall Cyngor Sir Ceredigion, drwy gytundeb, godi tâl ar berchennog y bwyd am ddinistrio a gwaredu bwydydd a gaiff eu hildio'n wirfoddol.

Bydd y Gwasanaeth fel arfer yn gwneud cais i'r Ynad Heddwch am gostau sy'n gysylltiedig â dinistrio a gwaredu bwyd a atafaelwyd.

Os bydd angen gwaredu bwyd, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd addas ac nad oes posibilrwydd o'r bwyd yn dychwelyd i'r gadwyn fwyd.

**Rhybudd Syml**
Dylid cyfeirio at Bolisi Gorfodi Corfforaethol Cyngor Sir Ceredigion.

**Erlyn**
Dylid cyfeirio at Bolisi Gorfodi Corfforaethol Cyngor Sir Ceredigion.

**Gorchymyn Gwahardd at Ddibenion Hylendid**
Os caiff gweithredwr busnes bwyd ei ddyfarnu'n euog o drosedd o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a bod y Llys yn fodlon bod y cyflwr risg iechyd wedi'i gyflawni mewn perthynas â'r busnes bwyd dan sylw, mae gan y Llys bŵer i orfodi Gorchymyn Gwahardd at Ddibenion Hylendid yn erbyn y gwaharddiad, o dan Reoliad 7 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

Yn dilyn erlyniad llwyddiannus, mae gan y Llys bŵer i orfodi'r gwaharddiad priodol os ydynt yn fodlon bod risg o anaf i iechyd fel y'i diffiniwyd yn Rheoliad 7 (2) a (3) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006. Mae'n ofynnol i'r Llys orfodi Gorchymyn Gwahardd at Ddibenion Hylendid priodol a allai ymwneud â gwahardd proses neu driniaeth, neu ddefnyddio eiddo neu offer at ddibenion busnes bwyd.

Yn dilyn erlyniad llwyddiannus yn erbyn gweithredwr busnes bwyd gall y Llys, drwy rinwedd Rheoliad 7 (4) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, orfodi Gorchymyn Gwahardd at Ddibenion Hylendid ar y gweithredwr busnes bwyd sy'n cyfranogi at y gwaith o reoli unrhyw fusnes bwyd, neu unrhyw fusnes bwyd o ddosbarth neu ddisgrifiad a nodwyd yn y gorchymyn.

Bydd y swyddog awdurdodedig, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud y Gorchymyn Gwahardd at Ddibenion Hylendid, yn cyflwyno copi o'r Gorchymyn Gwahardd at Ddibenion Hylendid i'r gweithredwr busnes bwyd ac yn achos Gorchymyn Gwahardd at Ddibenion Hylendid a gyflwynir o dan Reoliad 7 (1) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, atodi copi o'r gorchymyn mewn lle amlwg yn yr eiddo.

Mae'n drosedd i beidio â chydymffurfio â Gorchymyn Gwahardd at Dibenion Hylendid a bydd yn arwain at adrodd ar y mater gyda'r bwriad o erlyn.

Hysbysir cyrff eraill â diddordeb, gan gynnwys yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd bod Hysbysiad Gwahardd at Ddibenion Hylendid wedi'i gyflwyno o dan Reoliad 7 (4) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.